**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**19 CHWEFROR 2019**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Sian Braun, Bob Connah, Adele Davies-Cooke, Andrew Holgate, Rita Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill a Ralph Small

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwyr Cyllid, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol, Rheolwr Refeniw, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 96. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019.

Cywirdeb

Tudalen 15, eitem 90 - Adolygiad Etholiadol Sir y Fflint. Gofynnodd y Cynghorydd Chris Bithell i'r cofnodion gael eu diwygio i gofnodi diolch i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'i dîm am eu gwaith caled, ar y cyd ag Aelodau, i gyflawni cyfaddawd a chanlyniad cytunedig mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad uchod, fod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

## 97. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd David Healey gysylltiad personol yn eitem agenda 9b, Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2019/20 - 2021/22 gan ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Castell Alun. Datganodd y Cynghorydd Gladys Healey hefyd gysylltiad personol yn eitem 9b gan ei bod hithau'n llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Castell Alun.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar gyfer Aelodau a oedd yn llywodraethwyr ysgol mewn perthynas â'r ysgolion y cyfeiriwyd atynt o dan eitem agenda 9b – Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2019/20 – 2021/22.

## 98. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei gylchredeg i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Cynghorydd Kevin Hughes ddarparu adborth i Aelodau ar yr ymweliad gan unigolion o Hosbis Tŷ Gobaith â Neuadd y Sir. Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r Cadeirydd a'i wraig am gynnal y digwyddiad a siaradodd am y gwaith caled a'r hyn a gyflawnwyd gan unigolion a fu'n ysbrydoledig wrth godi arian ar gyfer Hosbis Tŷ Gobaith drwy ddigwyddiadau a chynlluniau noddedig. Cymerodd y Cynghorydd Hughes y cyfle i wahodd y Cadeirydd a'i gydweddog, yr Is-gadeirydd a'i chydweddog, a'r holl Aelodau, i ymweld â Tŷ Gobaith i weld y gofal a'r cymorth ymroddedig a ddarperir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am fynychu Gwledd Arglwydd Faer Caer ar ei ran yn ddiweddar.

## 99. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 100. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim erbyn y dyddiad cau.

## 101. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim erbyn y dyddiad cau.

## 102. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd dim erbyn y dyddiad cau.

**103.** **CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2019/20**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar Gyllideb Cronfa'r Cyngor 2019/20 er mwyn derbyn argymhellion gan y Cabinet i'r Cyngor i gau'r gyllideb flynyddol ar gyfer 2019/20 yn dilyn trafodaeth y Cyngor ar 29 Ionawr a'r gwaith adolygu pellach ar ddewisiadau cyllid corfforaethol a'r risgiau a gymerwyd yn yr interim. Roedd adroddiad y Cyngor o'r 29 Ionawr 2019, a oedd yn cynnwys adroddiad y Cabinet o 22 Ionawr 2019 wedi eu hatodi i'r adroddiad.

Darparodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at y ddirprwyaeth i'r Senedd a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, i geisio gwelliant i'r Setliad llywodraeth leol ar gyfer 2019/20, ynghyd â'r cais a wnaed gan Aelodau yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Ionawr i swyddogion adolygu meysydd penodol o gyllid corfforaethol a dod yn ôl gyda rhagor o gyngor technegol a barn broffesiynol. Dywedodd mai'r meysydd penodol oedd:

- ymrwymiadau Polisi'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a'r posibiliadau o ran lleihau'r cyfraniad refeniw blynyddol drwy ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i leihau cyfanswm y ddyled y gellir ei chyllido.
- y sail resymegol fanwl ar gyfer argymell cadw'r cronfeydd wrth gefn fel y'u rhestrir yn y tabl yn yr adroddiad ac yn sleidiau'r cyflwyniad; a'r
- cyfiawnhad ar gyfer cadw'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd y rhagamcenir y byddant yn aros ar lefel sefydlog dros y flwyddyn nesaf.

Gofynnwyd am eglurhad pellach hefyd o'r posibiliadau o ran gohirio dyledion o dan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at weithdy briffio'r gyllideb ar gyfer yr holl Aelodau a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, er mwyn cael trafodaeth fanwl am gyllid corfforaethol. Dywedodd bod rhagor o gyngor technegol a barn broffesiynol yn cael eu darparu mewn cyfres o nodiadau cyngor technegol a restrwyd fel papurau cefndir i'r adroddiad, ac roeddynt ar gael ar gais.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Refeniw, gyflwyniad a oedd yn cynnwys y meysydd allweddol a ganlyn:

- gosod cyllideb gyfreithlon a chytbwys
- crynodeb o sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2019/20
- cyngor (technegol) proffesiynol
- Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) – defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn
- cronfeydd wrth gefn nad oeddynt wedi eu clustnodi
- cronfeydd wrth gefn oedd wedi eu clustnodi
- gohirio dyledion a rheoli llif arian
- barnau proffesiynol
- senarios cyllideb
- camau nesaf ac amserlenni

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) mai dyletswydd y Cyngor ar y cyd yw gosod cyllideb gyfreithlon a chytbwys. Cyfeiriodd at bwysigrwydd cadw at ddyddiadau cau ac eglurodd, o ran preswylwyr a oedd yn talu eu Treth Gyngor drwy ddebyd uniongyrchol, eu bod yn gorfod cael rhybudd o bythefnos ymlaen llaw o gynnydd mewn taliadau, ac felly byddai angen cymeradwyo cyllideb y Cyngor cyn diwedd mis Chwefror er mwyn gallu cynnig y cyfleuster talu hwn mewn da bryd. Cyfeiriodd at y broses o osod y gyllideb a'r cyngor technegol a phroffesiynol a ddarparwyd i arwain Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton bod y Cabinet, mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn union cyn y Cyngor Sir, wedi argymell penderfyniad i'r Cyngor Sir ac wedi gofyn am gael dosbarthu manylion y penderfyniad i'r Aelodau eu hystyried yn y cyfarfod. Diolchodd y Cynghorydd Shotton i'r Prif Weithredwr a'r Swyddogion am ymateb i'r ceisiadau penodol a godwyd gan Aelodau yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, er mwyn adolygu a chyfiawnhau ymhellach y cronfeydd wrth gefn sydd wedi a heb eu clustnodi. Cyfeiriodd at yr argymhelliad gan y Cabinet y dylai'r Cyngor ddefnyddio cyfuniad pellach o gronfeydd wrth gefn sydd wedi a heb eu clustnodi ynghyd â balansau o £321k i leihau'r bwlch sydd ar ôl yn y gyllideb. Aeth ymlaen i ddweud y byddai gofyniad sy'n weddill o ran y gyllideb o £2.781m yn cael ei gyflawni drwy'r Dreth Gyngor fyddai angen - ar gyfer praesept gwasanaethau'r Cyngor – cynnydd o 8.17%. Eglurodd y Cynghorydd Shotton, o'i gyfuno â'r praeseptau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, byddai'r codiad blynyddol yn 8.38% ar gyfartaledd ar gyfer eiddo Band B.

Gwnaeth y Cynghorydd Shotton sylwadau ar her barhaus cyni ar lefel leol a chenedlaethol, a oedd yn ganlyniad uniongyrchol i dangyllido gwasanaethau llywodraeth leol am dros ddegawd gan y llywodraeth genedlaethol. Cyfeiriodd at y gwasanaethau hanfodol niferus a ddarperir gan awdurdodau lleol a gwnaeth sylwadau ar effaith drychinebus y polisi cyni ar y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraethau lleol ar draws y Deyrnas Unedig a Chymru. Dywedodd ei fod yn falch bod cyllideb yr awdurdod yn amddiffyn ac yn cadw gwasanaethau ar gyfer preswylwyr Sir y Fflint nad oeddynt yn bodoli mwyach mewn sawl awdurdod lleol arall, a gwnaeth sylwadau ar yr ychwanegedd a ddarperir mewn gofal cymdeithasol a darpariaeth addysg er mwyn cyflawni gofynion cynyddol. Cyfeiriodd at y newid o drethiant cenedlaethol i drethiant cynghorau lleol a dywedodd bod rhaid osgoi hyn ar gyfer y dyfodol. Siaradodd am yr angen i nodi'r cyngor proffesiynol a ddarperir gan swyddogion ac archwilwyr allanol, ynghyd â'r angen i gynnal y cydbwysedd iawn rhwng tynnu rhagor o arian o'r cronfeydd wrth gefn a fyddai'n arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor ac yn lleihau gwasanaethau yn y dyfodol. Gofynnodd i Aelodau gefnogi'r cynigion a gwnaeth y cynnig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at bolisïau llywodraethau Cenedlaethol a Chymru a oedd wedi methu, a siaradodd am annhegwch y Fformiwla y dywedodd bod ganddynt anfanteision, ac nad oeddynt yn diwallu anghenion o ran gwariant cyhoeddus. Dywedodd nad oedd yn gallu cefnogi codiad yn y Dreth Gyngor i 8.75% gan nad oedd yn dderbyniol i breswylwyr Sir y Fflint. Roedd y Cynghorydd Dolphin yn cefnogi'r cynnig i ffurfio gweithgor trawsbleidiol ac i gyfarfod â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai i wneud cynigion ar gyfer system gyllid fwy cynaliadwy a theg ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Roedd y Cynghorydd Mike Peers yn cytuno gyda'r barnau a fynegwyd gan y Cynghorydd Chris Dolphin a dywedodd na allai gefnogi cynnydd o 8.75% yn y Dreth Gyngor. Aeth ymlaen i ddweud, er ei fod yn un o'r Cynghorau sy'n cael y lefel isaf o gyllid yng Nghymru, ynghyd â'r ddirprwyaeth i'r Senedd i geisio gwelliant yn y Setliad, ni fu unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru (LlC) o unrhyw fwriad i newid y Setliad ar gyfer 2019/20 ac roedd y bwlch diwygiedig yn y gyllideb yn parhau i fod yn £3.102m. Dywedodd bod baich treth yn cael ei symud i'r Dreth Gyngor leol. Roedd yn cydnabod bod y Cabinet wedi cytuno ar welliant o ran y defnydd o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r mater. Siaradodd am y baich cynyddol a'r duedd sy'n peri gofid o godiadau yn y dreth gyngor a'r effaith ar y rheiny sy'n talu'r dreth gyngor drwy symud y cyfrifoldeb o LlC i breswylwyr lleol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y codiadau yn y Dreth Gyngor ers 2016, a siaradodd am yr angen i fynd i'r afael â hyn ac i gau'r bwlch, a chynigiodd y diwygiad a ganlyn i'r cynigion a argymhellwyd i'r Cyngor gan y Cabinet:-

Bod y cynnig gwreiddiol i gynyddu'r Dreth Gyngor i 8.5% yn cael ei leihau i 5.95% ar gyfer 2019/20. Dywedodd bod Treth Gyngor o 5.95% yn cyfrannu £0.948m at y bwlch ac awgrymodd bod £1.429m yn cael ei neilltuo o gronfeydd wrth gefn sydd heb eu neilltuo. Dywedodd y Cynghorydd Peers y trosglwyddwyd £1.4m o'r refeniw gan y Cabinet ym mis Medi a'i fod yn dal i fod yn y gronfa wrth gefn, ac o'r un gronfa wrth gefn roedd £1.9m wedi'i gymryd ar gyfer Cam 1. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd bron dim symudiad ym malansau cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu neilltuo o flwyddyn i flwyddyn. Gyda chronfeydd wrth gefn ar lefel o £5.8m, byddai gostyngiad o 12.5% yn darparu £0.725 arall a fyddai'n gadael dros £5m mewn cronfeydd sydd wedi eu neilltuo. Wrth grynhoi, dywedodd bod y symiau cyfunol o £0.948m, £1.429m a £0.725m yn dod i gyfanswm o £3.102m a oedd yn cau'r bwlch ac yn cydbwyso'r gyllideb. Gofynnodd i Aelodau gefnogi'r diwygiad.

Eiliodd y Cynghorydd Patrick Heesom y cynnig.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Bernie Attridge, darparodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol eglurhad a chyngor mewn perthynas â'r ffigyrau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Peers. Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol at yr effaith ar y gronfa wrth gefn a dywedodd y byddai'r cynnig gan y Cynghorydd Peers yn arwain at ostyngiad o £1.4 yn y gronfa wrth gefn, a fyddai'n golygu na fyddai dim ar ôl ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol i gyflawni effeithlonrwydd neu risgiau corfforaethol sylweddol, fel costau cyflogau a diswyddo athrawon. Gan gyfeirio at y cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod angen cadw'r rhain ar gyfer risgiau hysbys ac ymrwymiadau i'r dyfodol, ac eglurodd, o fewn y £5.8m, roedd dau swm sylweddol ar gyfer y gronfa wrth gefn yswiriant ar gyfer atebolrwydd hawliadau posibl yn y dyfodol ac ar gyfer grantiau a chyfraniadau lle'r oedd amodau cyfreithiol ynghlwm iddynt. Gwnaeth y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y sylw hefyd ynghylch yr effaith ar 2020/21 a fyddai'n arwain at gynnydd ym mwlch y gyllideb o £2.15m (sy'n cynyddu'r bwlch o £9.4m i £11.5m ar gyfer 20/21). I grynhoi, roedd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn cynghori yn erbyn y defnydd o ragor o gronfeydd wrth gefn na hynny a argymhellwyd gan y Cabinet i'r Cyngor.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cynghorydd Peers am ei waith a'i awgrymiadau ar gyfer gwella'r sefyllfa o ran y Dreth Gyngor drwy'r defnydd o gronfeydd wrth gefn. Gwnaeth sylwadau ar y risgiau i wasanaethau a dywedodd

mai ei gyngor ef oedd y byddai’r defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn sydd heb eu clustnodi yn gadael cronfeydd annigonol ar gyfer eleni a’r dyfodol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi a dywedodd y byddai’n gwneud nifer o wasanaethau’n rhy agored i risgiau pe baent yn cael eu lleihau. Eglurodd pam yr oedd eu hangen ar gyfer y tymor hir a dywedodd unwaith eto y byddai’r cynigion a wnaed yn ychwanegu £2.15m arall i’r bwlch cyllido ar gyfer y flwyddyn nesaf ac, yn absenoldeb unrhyw arwydd o’r llywodraeth genedlaethol neu LlC o fwy o gyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai’r £2.15m o gronfeydd ychwanegol wrth gefn ar gyfer y flwyddyn nesaf, heb unrhyw fath arall o incwm, yn cyfateb i 3.2% ychwanegol ar y Dreth Gyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr, gan ystyried y rhagolwg ariannol, gallu cyfyngedig yr Awdurdod i ganfod rhagor o arbedion neu godi incwm, ei gyngor oedd na fyddai’r cynigion a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Peers yn benderfyniad cyfrifol i’r Cyngor gytuno arno yn 2019/20 neu 202/21.

Siaradodd y Cynghorydd Patrick Heesom mewn perthynas â’r diwygiad. Gwnaeth sylwadau ynghylch yr effaith niweidiol ar fywoliaeth pobl a achosir gan gynnydd yn y Dreth Gyngor, a mynegodd y farn ei bod yn system annheg. Dywedodd bod yr Awdurdod yn defnyddio’r Dreth Gyngor fel cronfa wrth gefn yn y gyllideb a dywedodd bod dyletswydd i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i leihau effaith y Dreth Gyngor ar breswylwyr Sir y Fflint. Anogodd yr Awdurdod i gyfyngu’r effaith ac i leihau’r dreth gyngor i lefel dderbyniol.

Siaradodd y Cynghorydd Derek Butler hefyd ar y diwygiad a diolchodd i’r Cynghorydd Peers am ei gynigion amgen. Siaradodd am yr angen i barhau i ddarparu’r gwasanaethau gorau bosibl i breswylwyr Sir y Fflint yn ystod yr adegau gwaethaf. Dywedodd bod Swyddogion wedi cynghori y byddai’r cynigion amgen a gyflwynwyd yn gohirio problemau am flwyddyn arall ac yn ychwanegu’r posibilrwydd o 3.2% ar y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Siaradodd am yr angen i fynd i’r afael â heriau anodd ar unwaith.

Siaradodd y Cynghorwyr Tony Sharps ac Ian Roberts mewn perthynas â’r diwygiad. Pwysleisiodd y Cynghorydd Ian Roberts yr angen i gadw cronfeydd wrth gefn a rhoddodd enghreifftiau o sut y defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn i ddatrys amgylchiadau difrifol a datblygiadau yn y gorffennol.

Roedd y Cynghorydd Neville Phillips yn amau, pe bai’r diwygiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Peers yn cael i gytuno gan y Cyngor, p’un a fyddai modd i’r cyllid a gymerwyd o’r cronfeydd wrth gefn yn 2019/20 gael ei ad-dalu mewn blynyddoedd yn y dyfodol, ar y ddealltwriaeth y dylid parhau i lobïo LlC gyda’r disgwyliad y byddai gwelliant yn y Setliad yn y tymor hwy. Yn ei ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd newid yn Setliad LlC ar gyfer eleni, ac ar yr adeg hon, nid oedd LlC yn gallu rhoi rhagamcan i’r dyfodol o unrhyw fath ar gyfer 2020/21 ymlaen. Roedd rhaid seilio cynigion y gyllideb ar ragolygon a’r hyn sy’n hysbys. Y cyngor a roddwyd i’r Cynghorydd Peers ynghylch y diwygiad arfaethedig oedd y byddai’n gadael yr Awdurdod gyda chronfeydd wrth gefn a balansau annigonol ar gyfer risgiau o fewn y flwyddyn ac yn y tymor canolig. Rhybuddiodd ynghylch y perygl o fantoli gormodol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb a fyddai’n anghynaliadwy, yn afresymol ac yn anghyfrifol.

Rhybuddiodd Chris Bithell hefyd yn erbyn y defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn, a chyfeiriodd at eu pwrpas bwriadedig a’r nifer o faterion “anhysbys”

nad yw'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â hwy eto. Cyfeiriodd at gost lleoliadau y tu allan i'r sir, y cynnydd mewn pensiynau a chyflogau athrawon fel enghreifftiau, a dywedodd y byddai mathau eraill o bwysau ychwanegol yn cael eu rhoi ar yr Awdurdod. Gwnaeth sylwadau hefyd ar yr ansicrwydd ac effaith Brexit ar wasanaethau cenedlaethol a lleol. Soniodd unwaith eto am y cyngor a roddwyd gan Swyddogion nad oedd gwneud defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn yn ddichonadwy neu'n gynaliadwy a daeth i'r casgliad mai'r unig ateb oedd cynyddu'r Dreth Gyngor er mwyn pontio'r bwlch mewn cyllid.

Gwnaeth y Cynghorydd Tudor Jones sylwadau ar gymesuredd cronfeydd wrth gefn a balansau mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd i'w hystyried gan y Cyngor. Adroddodd y Prif Weithredwr am y defnydd o gronfeydd wrth gefn sydd wedi a heb eu clustnodi a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel i leihau'r bwlch yn y gyllideb. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw gronfeydd wrth gefn eraill a oedd wedi neu heb eu clustnodi y gellid eu rhyddhau'n ddiogel, a phe bai'r Cyngor yn penderfynu ychwanegu rhagor o gronfeydd o gronfeydd sydd wedi neu heb eu clustnodi, byddai bwlch anghynaliadwy ac anorchfygol yn cael ei greu yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

Roedd y Cynghorydd Carol Ellis yn cefnogi'r sylwadau a'r awgrym a wnaed gan y Cynghorydd Neville Phillips. Dywedodd y Prif Weithredwr unwaith eto na ellir ond seilio'r gyllideb ar yr hyn sy'n "hysbys" ar hyn o bryd, yn nhermau incwm a dderbyniwyd, a dywedodd nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i gadarnhau ar gyfer eleni. Eglurodd y byddai rhaid i LlC wella'r sefyllfa ar gyfer awdurdodau lleol yn 2020/21, a'r rhagolwg gan LlC oedd na fyddai'r sefyllfa'n ddim gwell mewn blynyddoedd yn y dyfodol hyd nes y ceir newid sefyllfa ar lefel y DU.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Cynghorydd Peers am ei waith o ran darparu cynnig amgen. Gwnaeth sylwadau ar y cyngor statudol a roddwyd gan Swyddogion a'r adolygiad pellach a gynhaliwyd o'r lefel o gronfeydd wrth gefn sydd wedi a heb eu clustnodi yn dilyn cais gan Aelodau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Sir. Roedd o'r farn ei fod yn iawn i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i amddiffyn gwasanaethau ac i sicrhau bod y Dreth Gyngor yn cael ei chadw mor isel â phosibl. Cyfeiriodd at y risgiau wrth fynd ymlaen, a dywedodd nad oedd unrhyw ymrwymiad gan y llywodraeth genedlaethol na LlC mewn perthynas â chynnydd o 7.2% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr i athrawon, a fyddai'n costio £3.5m mewn un flwyddyn ac nad oedd wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb. Pwysleisiodd y lefel o risgiau a'r angen i gynnal cronfeydd wrth gefn, a dywedodd mai'r Awdurdod oedd y defnyddiwr mwyaf o gronfeydd wrth gefn yn y gyllideb yng Ngogledd Cymru eleni. Rhybuddiodd y byddai'r diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Peers yn dyblu'r defnydd o'r cronfeydd wrth gefn a argymhellwyd, ac ni roddodd unrhyw syniad o sut y byddai'r cronfeydd yn cael eu hail-lenwi yng nghyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf. Dywedodd y byddai'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gyllido gwasanaethau dydd i ddydd a byddai'n arwain at ragor o doriadau i wasanaethau y flwyddyn nesaf. Wrth grynhoi, dywedodd y byddai'r diwygiad yn creu sefyllfa anghynaliadwy y flwyddyn nesaf a gofynnodd i Aelodau bleidleisio yn ei erbyn.

Cafwyd pleidlais a gofnodwyd mewn perthynas â'r diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Peers. Wrth geisio pleidlais a gofnodwyd, cafwyd y nifer ofynnol o 10 aelod yn cefnogi'r cynnig.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) mai'r diwygiad oedd y byddai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn cael ei osod ar 5.95% a fyddai'n cynhyrchu £948k tuag at y bwlch yn y gyllideb. Byddai £1.429m yn cael ei ddefnyddio o gronfeydd wrth gefn sydd heb eu clustnodi a £725k o gronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi er mwyn cau'r bwlch o £3.182m.
Pleidleisiodd y Cynghorwyr a ganlyn o blaid y diwygiad:

Marion Bateman, Mike Allport, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Helen Brown, Clive Carver, David Cox, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, Veronica Gay, George Hardcastle, Patrick Heesom, Ray Hughes, Brian Lloyd, Dave Mackie, Mike Peers, Owen Thomas, David Williams, Arnold Woolley.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr a ganlyn yn erbyn y diwygiad:

Paul Cunningham, Bernie Attridge, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Geoff Collett, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger

Roedd y Cynghorwyr a ganlyn wedi atal eu pleidlais:

Jean Davies, Mared Eastwood, Kevin Hughes, Tudor Jones, Colin Legg, Neville Phillips.

Ni chafodd y diwygiad ei dderbyn.

Dywedodd y Cynghorydd David Healey air o gefnogaeth i'r cynnig o sylwedd. Diolchodd i'r Prif Weithredwr a'r Swyddogion am y cyngor a ddarparwyd i Aelodau a thalodd deyrnged iddynt am amddiffyn gwasanaethau yn ystod degawd o gyni na welwyd ei debyg o'r blaen ynghyd â lefelau isel o gyllid. Talodd deyrnged hefyd i gymunedau lleol am eu cymorth a'u gwaith yn nhermau trosglwyddo asedau cymunedol. Wrth gefnogi'r argymhellion a gynigiwyd gan y Cabinet dywedodd y Cynghorydd Healey bod y cyfle i gyfarfod â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai i wneud cynigion ar gyfer system gyllido fwy cynaliadwy a theg ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn cael ei groesawu, ac y dylid ei dderbyn. Roedd hefyd yn cefnogi gwaith trawsbleidiol a dywedodd y byddai'n rhoi cyfle i godi'r problemau sy'n wynebu cymunedau lleol.

Dywedodd y Cynghorwyr Rosetta Dolphin a Paul Shotton na allai awdurdodau lleol barhau i dderbyn toriadau mewn cyllid, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a siaradodd am yr effaith ar fywoliaeth pobl a'r angen am system gyllido gynaliadwy a theg.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Chris Bithell mai nid yn unig Sir y Fflint a oedd yn wynebu codiadau Treth Gyngor gan fod awdurdodau eraill yn yr un sefyllfa oherwydd y rhaglen gyni a orfodwyd gan y llywodraeth genedlaethol. Aeth ymlaen i ddweud bod LlC hefyd wedi cael toriad o £850m mewn cyllid gan y llywodraeth genedlaethol a oedd wedi'i basio ymlaen i lywodraeth leol, a dywedodd bod y newid o drethiant incwm i drethiant lleol a wnaed mewn modd llechwraidd yn bolisi cenedlaethol a oedd yn anflaengar, yn annheg, ac nad oedd

yn ystyried incwm aelwydydd. Dywedodd bod rhaid cynyddu'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol er mwyn diwallu anghenion a gofynion pobl.

Cafwyd toriad ar y pwynt hwn yn y cyfarfod ar gyfer egwyl fer.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Helen Brown at y diweddariad ar reoli risg a ddarparwyd i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd fod 44 o risgiau strategol o fewn Cynllun y Cyngor a thynnodd sylw at y cyngor sy'n cefnogi blaenoriaethau a'r pennawd risg y byddai lefelau dyledion yn codi pa na fyddai tenantiaid yn gallu talu eu rhent neu dreth gyngor. Dywedodd y gwnaed sylwadau yn y Pwyllgor Archwilio bod y risgiau nid yn unig i'r tenantiaid ond i'r boblogaeth ehangach, gan gynnwys perchnogion tai yn y sector preifat. Roedd yr adroddiad yn nodi, yn ystod 2018/19 y bu'r sylw ar ymyrraeth gynnar ac ymyrraeth i atal problemau rhag dwysáu. Aeth ymlaen i ddweud bod casglu'r Dreth Gyngor yn dal i fod o dan bwysau a bod y risg eleni wedi newid o oren i goch. Dywedodd y Cynghorydd Brown na fyddai'r cynnydd arfaethedig o 8.17% ond yn ychwanegu at y pwysau. Gofynnodd y cwestiwn "a wnaeth y statws risg symud o goch i ddu yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd?". Dywedodd y Cynghorydd Brown ei bod wedi siarad â llawer o breswylwyr pryderus ledled y sir a oedd yn ofnus o gynnydd pellach yn y dreth gyngor, a dywedodd bod llawer ohonynt eisoes wedi'u llethu'n ariannol. Dywedodd na allai gefnogi cynnydd o 8.75% yn y dreth gyngor a'i fod yn annheg gorfodi hyn ar breswylwyr Sir y Fflint. I grynhoi, holodd unwaith eto a fyddai'r statws risg yn newid o oren i goch i ddu yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Brown, cyfeiriodd y Rheolwr Refeniw at gynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor a oedd yn weithredol yng Nghymru ac y gallai ddarparu rhyddhad o hyd at 100% o'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, dywedodd, y Lloegr, bod gofyn i bob aelwyd wneud cyfraniad i'r dreth gyngor waeth beth fo lefel incwm aelwyd. Aeth ymlaen i ddweud bod y cynllun yng Nghymru'n cael ei ariannu'n bennaf gan LlC gyda swm atodol gan awdurdodau lleol, a dywedodd y byddai 16% o aelwydydd yn Sir y Fflint ar hyn o bryd yn gymwys i gael gostyngiad o 100% yn y Dreth Gyngor, neu ostyngiad rhannol. Gan gyfeirio at y cymorth a ddarperir i breswylwyr, dywedodd bod aelwydydd yn cael eu hannog i gynyddu eu taliadau o 10 i 12 rhandaliad misol i helpu gyda chynllunio eu cyllideb, ac eglurodd bod y dewisiadau o ran talu yn Sir y Fflint yn fwy hyblyg a chefnogol na'r mwyafrif o awdurdodau eraill.

Gan gyfeirio at y statws risg yr oedd gan y Cynghorydd Brown amheuon yn ei gylch, eglurodd y Prif Weithredwr bod y risg yn risg coch difrifol.

Siaradodd y Cynghorydd Carol Ellis am y gwir galedi a ddioddefwyd gan bobl sydd mewn gwaith a rhai sy'n ddi-waith, a dywedodd bod llawer ohonynt eisoes yn ddibynnol ar fanciau bwyd a banciau dillad. Dywedodd nad dim ond y cynnydd mewn Treth Gyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn oedd yn effeithio incymau aelwydydd ond hefyd yr holl gynnydd arall yng nghost treuliau byw blynyddol a oedd yn rhoi straen ariannol ar aelwydydd. Siaradodd am yr angen i sicrhau bod LlC yn deall nad yw preswylwyr yn gallu fforddio'r cynnydd yn y Dreth Gyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn er mwyn sybsideiddio cyllid cenedlaethol. Siaradodd hefyd am yr angen i ddal LlC i gyfrif er mwyn darparu cyllid digonol ar gyfer addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol er enghraifft. Cyfeiriodd y Cynghorydd

Ellis at y cyfrifoldebau a basiwyd o LlC i Lywodraeth Leol heb gyllid i ddarparu gwasanaethau, a chyfeiriodd at y Ddeddf Llesiant fel enghraifft.

Dywedodd y Cynghorydd Kevin Hughes bod Sir y Fflint yn llawer is na chyfartaledd Cymru yn nhermau taliadau'r dreth gyngor a chyfeiriodd at y cyfraddau uwch a godwyd mewn awdurdodau lleol cyfagos.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom bod angen ail-werthuso gwerth ardrethol eiddo yn Sir y Fflint. Pwysleisiodd yr angen i beidio â defnyddio'r Dreth Gyngor yn lle defnyddio cronfeydd wrth gefn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at y pum argymhelliad a ddarparwyd gan y Cabinet, ac awgrymodd y dylid eu rhannu ac ystyriodd ddau gynnig ar wahân, h.y. mynd i'r afael ag argymhellion 1, 4 a 5 fel cynnig ar wahân i argymhellion 2 a 3. Darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) gyngor ac eglurodd bod gan y Cadeirydd yr hawl i gymryd y bleidlais ym mha drefn bynnag, yn ôl ei ddoethineb. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cymryd un bleidlais ar y cynnig a wnaed gan y Cynghorydd Aaron Shotton.

Fel cynigiwr y cynnig, cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at y gofrestr risg a ystyriwyd yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Archwilio. Siaradodd am nifer y risgiau sylweddol i'r Cyngor a chyfeiriodd at enghreifftiau, sef y risg o ran cyllid digonol i barhau i ddarparu gwasanaethau bws cymorthdaledig o fewn Sir y Fflint, y risg o fewn gwasanaethau cymdeithasol bod lefel y galw y tu hwnt i'r ddarpariaeth sydd ar gael o ran gofal preswyl neu mewn cartrefi gofal, ynghyd â'r risg y bydd graddfa'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer diogelu oedolion y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Dywedodd y Cynghorydd Shotton y byddai tynnu mwy o gyllid o'r cronfeydd wrth gefn yn creu diffyg y byddai'n rhaid ei ad-dalu y flwyddyn nesaf heb newid yn y sefyllfa ariannu genedlaethol a ragwelir yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton at yr enghraifft o gynnydd ychwanegol o £1.98 yr wythnos yn y dreth gyngor ar eiddo Band D (ar gyfer elfen gwasanaethau'r cyngor o'r praesept) a dywedodd y byddai'r cynnydd yn galluogi'r Awdurdod i barhau i ddiwallu anghenion preswylwyr Sir y Fflint yn nhermau addysg, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau eraill. Gofynnodd i Aelodau gefnogi'r cynnig.

Gofynnwyd am bleidlais a gofnodwyd ar yr argymhellion a ganlyn a gynigiwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton:

(a) Hysbysir y Cyngor bod y ddyletswydd i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys yn ddyletswydd sylfaenol ac yn un na ellir ei hildio neu beidio â'i chyflawni. Mae angen i'r Cyngor ystyried y gofyniad o ran gwariant ar gyfer 2019/20 a'r tymor canolig wrth osod y gyllideb flynyddol. Yn absenoldeb unrhyw newid yn y sefyllfa o ran y dyraniad cyllid llywodraeth leol ar gyfer 2019/20 gan Lywodraeth Cymru, ac o ystyried y cyngor a'r farn broffesiynol a ddarparwyd gan swyddogion statudol, yr unig opsiynau sy'n dal i fod yn agored i'r Cyngor er mwyn mantoli'r gyllideb yw Treth y Cyngor a'r defnydd cymesur o gronfeydd wrth gefn a balansau;

(b) Bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor y defnydd pellach o gyfuniad o gronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi (£132k) a heb eu clustnodi (£189k) a balansau o £321k i leihau'r bwlch sydd ar ôl yn y gyllideb.

Bydd gofyniad o ran y gyllideb o £2.781m ar ôl wedyn i'w gyflawni drwy'r Dreth Gyngor (a fydd yn cynnwys yr ardoll ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru). Argymhellir codiad blynyddol o 8.75% i gyflawni cyfanswm y gofyniad hwn. Ar ôl ei gyfuno â phraeseptau'r Cynghorau Tref a Chymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, bydd y codiad blynyddol hwn yn dod i gyfartaledd o 8.38% ar gyfer eiddo Band D, sy'n cyfateb i £10.33 ychwanegol y mis;

(c) Bod y Cyngor yn nodi bod mwy o ddibyniaeth ar y Dreth Gyngor i gyllido gwasanaethau lleol yn anochel o ystyried polisïau cyllido'r Llywodraethau'r DU a Chymru. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod polisi o leihau'r Grant Cymorth Refeniw gyda disgwyl i Gynghorau Lloegr fod yn fwy annibynnol o ran dibynnu ar y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a gedwir ynghyd ag incwm arall i gyllido'r mwyafrif o'u gwariant, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhagdybiaeth gweithio y bydd codiad o 6.5% yn y Dreth Gyngor ar gyfartaledd ar draws Cymru yn ei gyfrifiadau ei hun o ran y gyllideb;

(d) Bod y Cyngor yn derbyn gwahoddiad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai i wneud cynigion ar gyfer system gyllido fwy cynaliadwy a theg ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru; a

(e) Bod y Cyngor yn ffurfio gweithgor trawsbleidiol, i'w gefnogi gan gyngor proffesiynol ac arbenigedd allanol, ar gyfer gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru a theulu llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn dilyn yr uchod (4).

Wrth geisio pleidlais a gofnodwyd, cafwyd y nifer ofynnol o 10 aelod yn cefnogi'r cynnig.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr a ganlyn o blaid y cynigion:

Paul Cunningham, Bernie Attridge, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Geoff Collett, David Cox, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr a ganlyn yn erbyn y cynigion:

Marion Bateman, Mike Allport, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Helen Brown, Clive Carver, Jean Davies, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, Veronica Gay, George Hardcastle, Patrick Heesom, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd, Dave Mackie, Mike Peers, Owen Thomas, ac Arnold Woolley.

Roedd y Cynghorydd David Williams wedi atal ei bleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr argymhellion yn cael eu derbyn.

presentation

**104. RHAGLEN GYFALAF CRONFA'R CYNGOR 2019/20 - 2021/22**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad i gymeradwyo cynlluniau i’w cynnwys o fewn y Rhaglen Gyfalaf dros gyfnod o 3 blynedd 2019/20 - 2021/22.

Rhoddodd y Prif Swyddog y wybodaeth gefndirol a chyflwynodd y prif ystyriaethau, fel y nodwyd yn yr adroddiad, o ran datblygu rhaglen gyfalaf 2019/20 a 2021/22. Cyfeiriodd at y diffyg o £8.216m yn Nhabl 1 – cyllid a amcangyfrifir 2018/19 – 2020/19, y diffyg o £1.428m yn Nhabl 2 – cyllid a amcangyfrifir 2018/19 – 2020/21, a’r swm cyllid o £26.740m yr amcangyfrifir y bydd ar gael 2019/20 – 2021/22.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog hefyd at Raglen Gyfalaf Gyffredinol 2019/20 - 2021/22 a dyraniadau asedau statudol/rheoleiddiol ac a gedwir 2019/20 - 2021/22. Adroddodd ynghylch dyraniadau arfaethedig 2019/20 a 2021/22 fel y manylwyd yn Nhabl 4, cynlluniau buddsoddi arfaethedig 2019/20 - 2021/22 fel y manylwyd yn Nhabl 5, a’r rhaglen gyfalaf gryno (a gyllidir yn gyffredinol) 2019/20 - 2021/22 fel y manylwyd yn Nhabl 6 o’r adroddiad a oedd yn dangos diffyg presennol o £0.374m.

Gan gyfeirio at grantiau penodol a benthyca, adroddodd y Prif Swyddog ar raglen Band B Ysgolion yr 21 Ganrif, ynghyd â benthyciadau’r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) i gartrefi NEWYDD ar gyfer tai fforddiadwy. Rhoddwyd manylion y cynlluniau a gyllidwyd yn benodol ar gyfer 2019/20 – 2021/22 yn Nhabl 7 yn yr adroddiad. Adroddodd hefyd am gyfanswm cryno Rhaglen Gyfalaf Cronfa’r Cyngor 2019/20 – 2021/22 a dywedodd bod manylion cyfanswm y cynigion ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf i’w gweld yn Nhabl 9. I gloi, soniodd y Prif Swyddog am gynlluniau posibl i’r dyfodol fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Awgrymodd y Cynghorydd Patrick Heesom y dylid rhoi ystyriaeth i werthu Theatr Clwyd er mwyn rhyddhau cyllid i gynorthwyo’r arbedion yn y gyllideb ar gyfer yr Awdurdod. Eglurodd y Prif Weithredwr bod astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i ystyried model amgen yn y dyfodol a allai leihau’r cymhorthdal ymhellach. Dywedodd na allai theatrau taleithiol weithredu heb ryw fath o gymhorthdal cyhoeddus: yr opsiynau oedd cynnal y ‘status quo’, model amgen a oedd yn fwy cost effeithiol, neu gau yn y pendraw.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i’r Prif Swyddog a’i dîm am eu gwaith ar y Rhaglen Gyfalaf y dywedodd ei fod yn barhad o’r rhaglen dreigl 3 blynedd, gyda chyfanswm buddsoddiad ar gyfer isadeiledd yn y sir o £49m. Aeth ymlaen i ddweud bod cyfanswm y buddsoddiadau cyfalaf ac isadeiledd, gan gynnwys y HRA, yn tua £83m yn y 3 blynedd nesaf. Siaradodd y Cynghorydd Shotton am y buddsoddiad sylweddol o £3.7m mewn gwelliannau priffyrdd yn y 3 blynedd nesaf a diolchodd i’r Cynghorydd Carolyn Thomas am lobïo LlC yn barhaus er mwyn cyflawni rhagor o gyllid ar gyfer hyn. Siaradodd hefyd am y buddsoddiad mewn TG mewn ysgolion i ddarparu gwelliannau yr oedd eu mawr angen o ran cysylltedd, parhad ymrwymiad i gyllido cwblhau cynlluniau gwaith yn Ysgol Uwchradd Castell Alun, Ysgol Glan Aber ac Ysgol Uwchradd Cei Connah, ynghyd â gwelliannau i’r Uned Cyfeirio Disgyblion ym

Mhlas Derwen. Dywedodd y Cynghorydd Shotton hefyd y byddai'r Awdurdod yn parhau gyda'i uchelgeisiau a'i ymrwymiad i fynd i'r afael â risgiau, fel y nodwyd yn y gofrestr risg a gyflwynwyd mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Archwilio, ac fel enghraifft, cyfeiriodd at yr angen i fynd i'r afael â chapasiti o ran gwelyau mewn gofal cartref nyrsio preifat a gyflawnwyd drwy estyniad i Marleyfield House, Bwcle, i ddarparu rhagor o welyau. I gloi, cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton at yr ymrwymiad o £672k ar gyfer mannau chwarae a chaeau chwaraeon artiffisial, a chyfeiriodd at y cynllun newydd ar gyfer cae chwaraeon artiffisial yn Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle, fel enghraifft.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Cymeradwyo'r dyraniadau yn Nhabl 4 (paragraff 1.04.1) o adroddiad y Cabinet ar gyfer adrannau Asedau Statudol/Rheoliadol ac a Gedwir Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 201/20 - 2021/22;

(b) Cymeradwyo'r cynlluniau a gynhwysir yn Nhabl 5 (paragraff 1.05.1) o adroddiad y Cabinet ar gyfer adran Buddsoddi Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2019/20 - 2021/22;

(c) Nodi'r diffyg yng nghyllido cynlluniau ym mlynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21 (paragraffau 1.06.1) fel y nodir yn adroddiad y Cabinet. Bydd opsiynau sy'n cynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau amgen (os ar gael), benthyca darbodus neu ailgyflwyno cynlluniau yn cael eu hystyried yn ystod 2019/20, a darperir diweddariadau i Aelodau yn adroddiadau monitro'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol.

(d) Cymeradwy'r cynlluniau a gynhwysir yn Nhabl 7 (paragraff 1.07.04) o adroddiad y Cabinet ar gyfer y rhan o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor a ariennir yn benodol, a ariennir yn rhannol drwy Fenthyca Darbodus.

**105. <u>STRATEGAETH GYFALAF GAN GYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS 2019/20 – 2021/22</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad ar gyfer cyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf 2019/20 - 2021/22 a oedd wedi'i diweddaru i'w chymeradwyo, ynghyd ag ystod o Ddangosyddion Darbodus sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Gyfalaf dros y cyfnod o 3 blynedd 2019/20 - 2021/22. Rhoddodd wybodaeth gefndirol ac adroddodd y cafodd y Strategaeth ei hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd unrhyw faterion penodol i'w hadrodd i'r Cyngor.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2019/20 – 2021/22;

(b) Bod y Cyngor yn cymeradwyo:-

- Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20 – 2021/22 fel y manylir o fewn Tablau 1, a 4 – 7 sy'n cynnwys y Strategaeth Gyfalaf a adroddwyd i'r Cabinet.

- Awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflawni symudiadau rhwng y terfynau a gytunwyd ar wahân o fewn y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol a'r terfyn gweithredol ar gyfer dyledion allanol (Tabl 6 o'r Strategaeth Gyfalaf a adroddwyd i'r Cabinet).

**106. CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2019/20, CYNLLUN BUSNES CYLLIDEB CYFRIF REFENIW A CHYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 BLYNEDD Y GYLLIDEB CYFRIF REFENIW**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad ar gyfer cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar gyfer 2019/20, Cynllun Busnes HRA a'r grynodeb o Gynllun Busnes 30 mlynedd yr HRA.

Adroddodd y Prif Swyddog ar renti, fel y manylwyd yn yr adroddiad, a dywedodd bod y Gweinidog wedi cytuno y byddai'r ymgodiad blynyddol yn cael ei osod ar 2.4%. Eglurodd, yn achos bod rhent wythnosol cyfartalog landlord cymdeithasol yn is na'i Fand Rhent Targed a bod angen iddo fod o fewn y Band Rhent Targed o dan y Polisi Rhent, yna'r uchafswm y gallent godi rhent wythnosol tenant unigol oedd 2.4% a £2. Byddai'r penderfyniad yn berthnasol am flwyddyn yn unig (2019-20) wrth ddisgwyl canlyniad yr adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy.

Dywedodd y Prif Swyddog hefyd bod y Cynllun Busnes a'r papurau cysylltiedig wedi cael eu cyflwyno hefyd i'r Ffederasiwn Tenantiaid a fu'n gadarnhaol iawn o ran cefnogi'r rhaglen, ac yn benodol o ran y gwaith cyfalaf a'r cynllun busnes. Aeth ymlaen i ddweud fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019 wedi mynegi eu cefnogaeth hefyd i'r Cynllun Busnes a'r gyllideb HRA, y cynnydd arfaethedig mewn rhent o hyd at 2.4% (ynghyd â hyd at £2), cynnydd mewn rhent garej o £1 yr wythnos, ynghyd â chynnydd mewn rhent llain garej o £0.20 yr wythnos, a'r Rhaglen Gyfalaf HRA arfaethedig ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r gyllideb a Chynllun Busnes HRA ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, fel y nodwyd yn yr adroddiad;

(b) Cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig mewn rhent o hyd at 2.4% (ynghyd â hyd at £2);

(c) Cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent garej o £1 yr wythnos a chynnydd yn rhent llain garej o £0.20 yr wythnos; a

(d) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf HRA arfaethedig ar gyfer 2019/20 fel y nodwyd yn atodiad C o'r adroddiad.

presentation

**107. DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW 2019/20**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad er mwyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer polisi'r Cyngor ar gyfer y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (ad-dalu dyledion) ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a dywedodd bod y Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio'r dull blwydd-dal ar gyfer gwariant cronfa'r cyngor a dywedodd y gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo parhad o bolisi'r llynedd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r canlynol ar gyfer Cronfa'r Cyngor (CF)

- Defnyddio Opsiwn 3 (Dull Oes Asedau) ar gyfer cyfrifo'r MRP ym mlwyddyn ariannol 2019/20 ar gyfer balans gwariant cyfalaf dyledus a ariennir drwy fenthyca â chymorth a bennwyd ar 31 Mawrth 2017. Y cyfrifiad fydd y dull 'blwydd-dal' dros 49 blynedd.

- Defnyddio Opsiwn 3 (Model Oes Asedau) ar gyfer cyfrifo'r MRP ym mlwyddyn ariannol 2019/20 r gyfer gwariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca â chymorth o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Y cyfrifiad fydd y dull 'blwydd-dal' dros gyfnod priodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

- Defnyddio Opsiwn 3 (Model Oes Asedau) ar gyfer cyfrifo'r MRP ym mlwyddyn ariannol 2019/20 ar gyfer gwariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca heb gymorth (darbodus) neu drefniadau credyd.

(b) Cymeradwyo'r canlynol i'r Cyngor Sir ar gyfer dyled Cyfrif Refeniw Tai (HRA)

- Defnyddio Opsiwn 2 (Dull Gofyniad Cyllido Cyfalaf) ar gyfer cyfrifo MRP yr HRA yn 2019/20 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf a ariennir gan ddyled.

(c) Cymeradwyo'r MRP ar fenthyciadau gan y Cyngor ar gyfer Cartrefi NEWYDD er mwyn adeiladu cartrefi fforddiadwy drwy'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) (sy'n gymwys fel gwariant cyfalaf yn nhermau cyfrifo) fel a ganlyn:

- Ni ddylid gweithredu unrhyw MRP yn ystod y cyfnod adeiladu (sy'n gyfnod byr) oherwydd na fydd yr ased yn cael ei ddefnyddio a dim budd yn deillio o'i ddefnyddio.

- Pan fo'r asedau yn cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau cyfalaf yn cael eu gwneud gan Gartrefi NEWYDD. Bydd MRP y Cyngor yn hafal â'r ad-daliadau a wneir gan Gartrefi NEWYDD. Bydd yr ad-daliadau a wneir gan Gartrefi NEWYDD yn cael eu hystyried, yn nhermau cyfrifyddu, fel derbynebau cyfalaf, y gellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled. Bydd yr ad-daliad cyfalaf / derbynneb cyfalaf yn cael ei neilltuo er mwyn ad-dalu dyled, a dyma yw polisi MRP y Cyngor ar gyfer ad-dalu'r ddyled.

**108. ARFERION A RHAGLENNI RHEOLI TRYSORLYS 2019/20 – 2021/22**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad i gymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20, ar y cyd â Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys 2019/20 – 2021/22, ac Arferion ac Atodlenni Rheoli Trysorlys 2019/20 – 2021/22.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol wybodaeth gefndirol a dywedodd bod y Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo'r Strategaeth, y Polisi, Arferion ac Atodlenni, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019. Aeth ymlaen i ddweud bod y Cabinet hefyd wedi ystyried adroddiad manwl ar osod Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20 a gynhwysir yn atodiad A i'r adroddiad, mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn union cyn cyfarfod y Cyngor Sir a'i fod wedi ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20, Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys 2019/20 – 2021/22, ac Arferion ac Atodlenni Rheoli Trysorlys 2019/20 – 2021/22.

**109. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 5.20 p.m.)

..................................................

**Cadeirydd**